

yr Athro



Ar 20 Ebrill eleni, daeth cynrychiolwyr o bob cwr o'r wlad at ei gilydd i Nant Gwrtheyrn, dan heulwen fendigedig, i drafod, herio, rhannu syniadau a chymdeithasu yng Nghynhadledd Flynyddol UCAC.

Trafodwyd a phasiwyd penderfyniadau lu ar bynciau megis:

- y Fagloriaeth Gymreig
- gwerth am arian y consortia rhanbarthol
- Anghenion Dysgu Ychwanegol
- cyllidebau ysgolion
- lleihau maint dosbarthiadau
- yr hawl i athrawon gael gweithio'n hyblyg

Penderfyniadau'r Gynhadledd sy'n gosod sail ar gyfer gwaith ymgyrchu'r undeb dros y flwyddyn i ddod, ac mae modd gweld y rhestr lawn ar wefan UCAC:

www.ucac.cymru

Cafwyd sesiwn hyfforddiant hwyliog iawn i Ysgrifenyddion Sir yr undeb cyn dechrau ar fusnes y Gynhadledd go iawn.

Croesawyd Kirsty Williams, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg i'r Gynhadledd am yr ail flwyddyn yn olynol, a nifer o siaradwyr gwadd eraill – cewch ddarllen amdanynt, a chael blas o ddifrifoldeb a hwyl y Gynhadledd - dros y tudalennau sy'n dilyn.

Bydd Cynhadledd Flynyddol 2019 yn cael ei chynnal yng Ngwesty'r Metropole, Llandrindod ar 5-6 Ebrill - rhwch y dyddiad yn eich dyddiaduron!



Hyfforddiant Ysgrifenyddion Sir

Sbectrwm, Hafan Cymru

Cafwyd cyflwyniad arbennig gan Vicky Glanville a Llinos Alun o brosiect Sbectrwm, Hafan Cymru yn y Gynhadledd Flynyddol eleni.

Mae gan y prosiect dîm o athrawon profiadol sy'n ymweld ag ysgolion i hyrwyddo'r amcanion canlynol:

- cefnogi ysgolion i weithredu ac ymgorffori Dull Ysgol Gyfan i fynd i'r afael â Thrais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol
- galluogi plant, pobl ifanc a chymuned yr ysgol i gydnabod ac osgoi perthnasau camdrinol
- gwella gallu ysgolion i adnabod a chefnogi disgyblion sydd mewn perygl
- gwella gallu ysgolion i reoli sefyllfaoedd ar ôl adnabod rhai sydd mewn perygl

Yn ôl arolwg Estyn 'Adolygiad o Addysg Perthnasoedd Iach' (2017) mae'r maes llafur sy'n cael ei gynnig gan Sbectrwm 'yn darparu ymdriniaeth gynhwysfawr ag addysg perthnasoedd iach, gan gynnwys agweddau y mae llawer o gyrsiau mewn ysgolion yn eu hepgor'. Mae'r agweddau hynny yn cynnwys 'gwybodaeth werthfawr am effaith cam-drin domestig ar blant, trais ar sail anrhydedd, priodas dan orfod ac anffurfio organau cenedlu benywod'.



Llinos Alun a Vicky Glanville o brosiect Sbectrwm, Hafan Cymru

Yr hyn oedd yn taro'r cynadleddwyr oedd bod y siaradwyr yn rhai â phrofiad helaeth fel addysgwyr oedd yn gwbl ymwybodol o'r heriau sy'n wynebu athrawon a chyrrff llywodraethwyr. Gall cynllun Sbectrwm gynnig cyngor parod trwy weithdai, cyflwyniadau a llenyddiaeth bwrsol gyda chyfleoedd i blant a phobl ifanc ddewis, datblygu a chymryd rhan yn eu hymgyrchoedd ysgol eu hunain.

Mae'r ddarpariaeth sydd ar gael gan Sbectrwm yn ddisgybl-ganolog, yn addas ar gyfer pob oedran a chyrrhaeddiad, yn thematig ac wedi'i gysylltu i'r cwricwlwm mewn modd traws-cwricwlaidd, yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau addysgu, ac yn ddwyieithog.

Cewch fwy o wybodaeth am brosiect Sbectrwm yma: www.hafancymru.co.uk neu trwy gysylltu dros y ffôn neu ar e-bost: spectrum@hafancymru.co.uk; 01267 266924

Y Pasbort Dysgu Proffesiynol

Ymunodd Bethan Stacey o Gyngor y Gweithlu Addysg â ni i roi cyflwyniad ar y Pasbort Dysgu Proffesiynol.

Mae'r Pasbort Dysgu Proffesiynol yn fwy ers mis Medi 2016, gyda dros 12 mil o ddefnyddwyr erbyn hyn. Ei fwriad yw rhoi cyfle i athrawon, darlithwyr addysg bellach a staff cymorth dysgu i nodi profiadau, sylwadau ac adborth o'u dewis fel sail ar gyfer myfyrio a datblygu'n broffesiynol - ac i alluogi hyn i ddigwydd yn hwylus, gan gydnabod yr hinsawdd o bwysau gwaith aruthrol.

Y Pasbort sy'n cartrefu'r Proffil Ymsefydlu, felly mae ei ddefnydd yn orfodol i Athrawon Newydd Gymhwys, ond mae'n gwbl ddewisol i bawb arall.

Ceir mynediad i'r pasbort ar wefan Cyngor y Gweithlu Addysg, o'ch cyfrif **FyCGA** - mae sefydlu cyfrif yn rhwydd a chyflym os nad ydych eisoes wedi gwneud.

Mae'n caniatáu i ddefnyddwyr lwytho a rhannu dogfennau, cynlluniau gwersi, fideos, cyflwyniadau a ffeiliau sain. Gellir cysylltu'ch dysgu a'ch datblygiad gyda'r safonau proffesiynol newydd, os dewiswch wneud hynny.

Mae'r hyn sy'n cael ei gofnodi'n gwbl gyfrinachol (heblaw am y Proffil Ymsefydlu ar gyfer Athrawon Newydd Gymhwys), oni bai bod y defnyddiwr yn dewis rhannu gwybodaeth - mae gan bob defnyddiwr gyfrinair personol.

Yn ogystal, mae'r pasbort yn darparu mynediad at borth arlein EBSCO sy'n agor y drws i erthyglau mewn cylchgronau academiaidd, e-lyfrau, a gwybodaeth mewn meysydd amrywiol ledled y byd.

Roedd teimlad yn yr ystafell fod Bethan wedi agor llygaid nifer ohonom ni at adnodd a allai fod yn eithriadol o ddefnyddiol - ac un a allai hyd yn oed arbed amser!

Mae Tîm Datblygiad Proffesiynol a Chyllid, Cyngor y Gweithlu Addysg yn barod i ymweld â'ch sefydliad i gefnogi'ch staff i ddefnyddio'r Pasbort. Os oes gennych ddiddordeb, cysylltwch â pdp@cga.cymru/02920460099.

Yn ogystal, mae tudalen Facebook (EWC Professional Learning Passport / Pasbort Dysgu Proffesiynol CGA) sy'n dangos y newyddion diweddaraf am y Pasbort gan gynnwys manylion am ddigwyddiadau a chynghor ar sut i gael y gorau allan ohono.

<https://www.ewc.wales/site/index.php/cy/datblygiad-proffesiynol/pasbort-dysgu-proffesiynol.html>



Bethan Stacey, Cyngor y Gweithlu Addysg

Bwrdd Golygyddol

Llywydd Cenedlaethol: Phil Higginson
Is-Llywydd: Roger Vaughan
Ysgrifennydd Cyffredinol: Elaine Edwards
Cydylynnydd Yr Athro: Rebecca Williams

Nid yw cynnwys Yr Athro o angenrheidiwydd yn farn swyddogol UCAC.

Os hoffech gyfrannu at y cylchgrawn hwn, mae croeso i chi anfon unrhyw syniadau neu erthyglau at: Prif Swyddfa UCAC, Ffordd Penglais, Aberystwyth SY23 2EU Ffôn: 01970 639950, ucac@ucac.cymru, www.ucac.cymru

Croesewir hefyd unrhyw awgrymiadau, syniadau neu sylwadau am Yr Athro.



Kirsty Williams AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg yn annerch y Gynhadledd

Kirsty Williams

Nid pob undeb sy'n llwyddo i gael Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg i siarad yn eu Cynhadledd. Mae'r ffaith bod yr Ysgrifennydd yn siarad dwy flynedd yn olynol yng Nghynhadledd UCAC yn dangos y parch a'r ymddiriedaeth sydd gan Kirsty Williams yn UCAC ac yn enwedig yn ein Hysgrifennydd Cyffredinol, Elaine Edwards.

Wrth gychwyn ei hanerchiad i'r cynadleddwyr yn Nant Gwrtheyrn nododd fod Plas Gregynog yn 2017 yn eithaf lleoliad, ond bod UCAC wedi dewis y lleoliad gorau posib eleni - a phwy allai ddadlau yn ei herbyn wrth i'r heulwen desog ddangos Nant Gwrtheyrn a Llŷn yn ei holl ogoniant dros y penwythnos.

Cychwynnodd Ysgrifennydd y Cabinet trwy ddweud fod ganddi weledigaeth glir ar gyfer addysg yng Nghymru. 'Y nod,' meddai 'yw cael cyfundrefn sy'n ennyn balchder rhyngwladol.' Ond sut mae ymgyraedd at y nod hwn? Mae Kirsty Williams yn credu y gallwn wneud hynny hyn trwy ymdrechu ar y cyd - 'gan ein bod oll yn barneriaid.' Y nod yw datblygu'r proffesiwn, datblygu arweinwyr arloesol ac hefyd cyfundrefn asesu effeithiol sy'n ateb y galw.

Aeth Ysgrifennydd y Cabinet ymlaen i gydnabod rhan unigryw ac arloesol UCAC yn y frwydr i ddatganoli'r pŵer dros dâl ac amodau gwaith athrawon. Gobeithir yn awr 'sefydlu model cenedlaethol i godi rôl athrawon, dim mwy: 'for Wales, see England.'

Wrth sôn am y Gymraeg mewn addysg, nododd Kirsty Williams ei bod yn anelu am sefyllfa ble mae pob dysgwr yn gallu defnyddio'r Gymraeg ar ôl gadael yr ysgol. 'Dylai ein hieuenctid allu defnyddio'r Gymraeg lle bynnag a phryd bynnag y dymunant.' Er mwyn ymgyrraedd â hyn mae'n rhaid datblygu sgiliau Cymraeg yn y gweithle. Cred Ysgrifennydd y Cabinet yn ogystal fod angen gwella'r gefnogaeth i'r rhai sy'n astudio'r Gymraeg o safbwynt adnoddau a'u bod ar gael law yn llaw ag adnoddau Saesneg. Yn yr un modd mae angen gwella'r ddarpariaeth ôl-16, a chryfhau rôl y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn hyn o beth.

Mae adroddiad Yr Athro Donaldson yn dipyn o sefyllfa 'Marmite'! Mae athrawon naill ai'n ei hoffi a'i groesawu neu'n ei gasáu a'i anwybyddu gan obeithio yr aiff i ffrwd! Mae Kirsty Williams wedi gwrandao ar ofidiau'r gweithlu ac wedi newid yr amserlen ar gyfer y cwricwlwm newydd. Clywodd y Gynhadledd y byddai'r cwricwlwm newydd yn cyrraedd ysgolion erbyn Pasg 2019 ac y byddai'n weithredol o'r dosbarth meithrin hyd flwyddyn 7 ym Medi 2022, gan ymestyn flwyddyn ysgol ar y tro wedi hynny.

Wrth ateb cwestiynau'r cynadleddwyr, daeth Ysgrifennydd y Cabinet drosodd yn ddigon onest a diffuant. Cafwyd un cwestiwn ynglŷn â'r Fagloriaeth Gymreig a chydabuwyd bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru fod yn well wrth egluro rhagoriaethau'r Fagloriaeth i rieni ac i ddisgyblion.

Cafodd y cyflwyniad dderbyniad digon gwresog gan y cynadleddwyr. Ni chafwyd unrhyw neges newydd gan Ysgrifennydd y Cabinet, ond yn hytrach cadarnhau'r polisïau presennol. Credaf fod gennym Weinidog Addysg sy'n barod i wrando ac i gydweithio yma, a hefyd un sy'n mwynhau ymweld â chynhadledd UCAC! Hyderaf y bydd yr arferiad yn parhau.

Ywain Myfyr, Swyddog Maes Cynorthwyol

Tâl Aelodaeth 2018-19

Dyma fydd tâl aelodaeth UCAC o fis Medi 2018. Sylwer nad yw'r tâl yn codi o gwbl eleni.

Categori aelodaeth	Tâl blynyddol	Tâl misol
Llawr amser	£204.00	£17.00
Rhan amser 0.7-0.9	£171.00	£14.25
Rhan amser 0.4-0.6	£132.00	£11.50
Rhan amser 0.3 neu lai	£114.00	£9.50
Blwyddyn galendr gyntaf o addysgu	AM DDIM	
Ail flwyddyn galendr o addysgu	HANNER PRIS	

Roger Vaughan:

darpar-Lywydd UCAC

Yn ystod swper y Gynhadledd, urddwyd Roger Vaughan fel Llywydd Cenedlaethol yr Undeb. Mae Roger yn athro Dylunio a Thechnoleg yn Ysgol Uwchradd Eifionydd, ac mi fydd yr awenau'n trosglwyddo oddi wrth ein Llywydd presennol, Phil Higginson, iddo ef ddechrau mis Medi.

Dyma grynodeb o'i anerchiad.



Phil Higginson yn cyflwyno Medal y Llywydd i Roger Vaughan



Athrawon dylanwadol

Dros yr holl flynyddoedd rwyf wedi bod ynghlwm ag addysg, fel disgybl ac fel athro rwyf wedi bod yn ffodus o gael athrawon sydd wedi dylanwadu arna i fel person.

Wrth edrych yn ôl ar fy amser fel disgybl nid y gwersi sy'n dod i'r cof ond y profiadau gefais.

Roedd tyfu i fyny yn y Bermo fel Cymro Cymraeg yn y 70au yn rhywbeth eithaf anghyffredin. Yn 7 oed roeddwn yn aelod o ddosbarth Cymraeg yr ysgol oedd yn cynnwys sawl oedran ac roedd awyrgylch braf yn y dosbarth. Mae gen i atgofion melyn o'r dosbarth ac ymroddiad yr athrawon ifanc oedd yn rhoi eu hamser tu allan i'r ystafell ddosbarth ar gyfer gweithgareddau'r Urdd neu hyrwyddo diddordeb mewn cerdd a cherddoriaeth werin. Pwy fyddai'n meddwl tua pymtheg mlynedd yn ddiweddarach y byddwn yn aelod o Gwerinos gyda'r union athro* oedd wedi agor fy llygaid i gerddoriaeth werin.

[*Ywain Myfyr, Swyddog Maes Cynorthwyol UCAC erbyn hyn! - Golygydd].

Erbyn hyn mae pawb yn cael addysg Gymraeg yn yr ysgol honno, ac mae'r diolch i bawb sydd wedi brwydro am addysg Gymraeg dros yr holl flynyddoedd.

Symudais wedyn yn 1981 i Ysgol y Gader, Dolgellau. Unwaith eto yn y cyfnod yma roedd nifer o athrawon wedi dylanwadu arna i yn yr ystafell ddosbarth a thu hwnt. Un o'r athrawon cyntaf i mi gyfarfod oedd Maldwyn Thomas yr athro gwaith coed. Crefftwr go iawn oedd wedi bod yn dysgu yn yr ysgol ers pan oedd yr ysgol yn ysgol ramadeg. Un o'r atgofion ohono sydd yn sefyll allan ydy'r amser lle roeddwn yn marcio darn o bren er mwyn iddo ei dorri ar y llif gron, ac fel disgybl dosbarth 1G wedi marcio yng nghanol y darn ac yn wastio llwyth. Dyna pryd ddaeth y linell "ti'n meddwl fod pren yn tyfu ar goed?" a finnau ofn ateb.



Roger Vaughan yn cyflwyno Medal yr Is-Lywydd i Julia James

Profiadau

Fel athro fy hun, rwy'n teimlo dyletswydd i roi profiadau i'r disgyblion dwi'n eu dysgu gan gynnwys tu allan i'r dosbarth, fel y gefais i. Yn anffodus mae hualau cyllidol a disgwyliadau i gyrraedd targedau yn gallu cyfyngu ar nifer y cyfleoedd mae disgyblion yn eu cael ac yn ei gwneud yn anodd i ryddhau athrawon yn ystod oriau ysgol.

Mae dyfodol addysg yng Nghymru'n ddibynnol ar ddenu athrawon da a brwdfrydig i aros yn y proffesiwn fel bydd dysgwyr y dyfodol yn cael y profiadau positif fydd yn sicrhau eu datblygiad fel unigolion yn ogystal a sicrhau cymwysterau addas iddynt fydd yn sail i'w gyrfaedd o'u dewis.

Mae'r niferoedd sy'n cwblhau cyrsiau addysg yn enwedig mewn pynciau lleiafrifol trwy gyfrwng y Gymraeg yn argyfyngus, ac mae recriwtio arbenigwyr i ddysgu mewn rhai ardaloedd yn anodd iawn.

UCAC - y gorffennol a'r dyfodol

Mae UCAC wedi bod yn gefn i mi a fy rheulu dros yr holl flynyddoedd. Cafodd fy ngwraig achos i alw ar gyngor UCAC ar ôl digwyddiad yn ystod ei blwyddyn gyntaf yn dysgu.

Roedd yr ysgol wedi bod ar ymweliad i Lundain i weld sioeau yn y West End a thra'n aros mewn gwesty nid anenwog cafwyd digwyddiad difrifol a daeth disgyblion ati yn datgan gwybodaeth aeth yn achos ymchwilio gan yr heddlu. Diolch i gyngor a chefnogaeth UCAC roedd fy ngwraig yn gallu rhoi yr holl dystiolaeth mewn llys barn yn Llundain trwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn aml iawn mae'r swyddogion yn gweithio'n ddiddiwedd a di-lol gan gadw at reolau cyfrinachedd, a fawr neb yn ymwybodol am yr holl waith sy'n digwydd yn y cefndir.

Rwyf yn aelod o'r Cyngor Cenedlaethol ers blyneddau bellach ac yn dyst i'r gwaith sydd wedi ennyn parch i Elaine yng Nghymru a thu hwnt, fydd hi'n rhyfedd heb ei hwyneb cyfarwydd wrth y llyw. Diolch iddi am ei holl waith cydwybodol a thrylwyr a dymunaf y gorau iddi i'r dyfodol.

I ddyfynnu Elaine: **"Ar ôl degawdau o ymgyrchu a dwyn perswâd gan UCAC - a fu, tan yn ddiweddar, yn llais unig iawn yn y diffeithwch - mae'r cyfle i osod tâl ac amodau gwaith sy'n cyd-fynd â diwylliant ac uchelgais Cymru ar gyfer ein byd addysg o fewn cyrraedd."**

Mae gan UCAC rôl flaenllaw i chwarae yn y datblygiadau pwysig sydd ar y gorwel megis datblygu cwricwlwm newydd i Gymru, recriwtio staff a sicrhau tegwch ac amodau gwaith. Mae gennym hefyd gyfraniad sylweddol i'w wneud i wireddu gweledigaeth y Llywodraeth i sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.



Ffarwelio ag Elaine

Bydd Elaine Edwards, Ysgrifennydd Cyffredinol UCAC yn ymddeol ar ôl degawd yn y swydd ddiwedd mis Awst eleni.

Eithriadol o braf yw cael nodi y caiff Elaine ei hurddo i Orsedd y Beirdd yn yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerdydd eleni. Rhoddwn ragor o wybodaeth ynghylch hynny a gweithgareddau eraill UCAC yn yr Eisteddfod yn agosach at yr amser.

Dyma araith deyrnged Phil Higginson, Llywydd Cenedlaethol UCAC i Elaine yn ystod y Gynhadledd.



Elaine Edwards, Ysgrifennydd Cyffredinol UCAC

“ UCAC yw'r undeb llafur cyntaf, a'r unig un hyd y dydd heddiw, sydd wedi'i sefydlu ar gyfer aelodau yng Nghymru'n benodol, a'r unig undeb llafur sy'n gweithredu'n llawn drwy gyfrwng y Gymraeg.

Nid cyd-ddigwyddiad yw ymroddiad Elaine Edwards i'r undeb penodol hwn gan fod ei hymrwymiad i'r proffesiwn addysg, i Gymru ac i'r Gymraeg yn treiddio'n ddwfn i'w hunaniaeth.

Dan awenau Elaine, mae'r Undeb wedi ehangu a phroffesiynoli'n sylweddol, gyda mwy o aelodau o staff cyflogedig nag erioed o'r blaen, er mwyn cynnig gwasanaeth cyfrwng Cymraeg o'r radd flaenaf i aelodau.

Bu ymgyrchu llwyddiannus mewn amryw o feysydd dan ei harweiniad. Efallai mai'r mwyaf nodedig a phellgyrhaeddol yw sicrhau bod y grym dros dâl ac amodau gwaith athrawon yn cael ei ddatganoli i Gymru – polisi a fu'n ganolog i weledigaeth UCAC ers ei sefydlu ym 1940, ac y bu gwrthwynebiad chwyn iddo o bron bob cyfeiriad tan yn ddiweddar. Bu UCAC, dan arweiniad Elaine, yn ddylanwadol yn ogystal yn yr ymgyrch i sefydlu'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Er ei hosgo cwrtais a diymhongar, mae ganddi'r cyfuniad o ruddin moesol, gallu dadansoddol, a dyfalbarhad amyneddgar sy'n drech – yn y pen draw – na dadleuon neu agweddau nad ydynt wedi eu gwreiddio'n ddwfn o ran gweledigaeth, daliadau ac angerdd.

Mae Elaine ei hun wedi'i gwreiddio yn nyffryn Aman, Sir Gâr. Cafodd ei magu ym mhentref bychan Rhosaman ac fe'i haddysgwyd yn Ysgol Cefn-bryn-brain ac Ysgol Gyfun Dyffryn Aman. Aeth ymlaen i Goleg Prifysgol Cymru Aberystwyth ble cafodd ei hudo gan Shakespeare, Thomas Hardy, Jane Austen a Beowulf; enillodd gradd mewn Saesneg ac yna dilyn cwrs TAR, cyn cychwyn ar yrfa ym myd addysg.

Bu'n athrawes am bron i ugain mlynedd yn Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin. Yn y blynyddoedd cynnar hynny, bu'n dysgu Saesneg, a Dyniaethau i blant ag Anghenion Arbennig, cyn ei phenodi'n Bennaeth yr Adran Saesneg yn gynnar yn ei gyrfa. Fel Pennaeth Adran, cafodd brofiadau eang, gan gynnwys darparu hyfforddiant i eraill a mentora myfyrwyr Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon ac athrawon newydd gymhwyso.

Â diddordeb mawr mewn hawliau dynol, sefydlodd grŵp Amnest Rhyngwladol i'w redeg gan Flynyddoedd 12 a 13 yr ysgol a chafodd gyfleoedd i gynghori ysgolion eraill ar sut i ddefnyddio gwaith gwirfoddol i Amnest Rhyngwladol yng nghyd-destun Bagloriaeth Cymru.


Cafodd ei phrofiadau cyntaf o ymdrin â'r wasg fel un o lefarwyr swyddogol y mudiad yng Nghymru. Cafodd flas ar waith undebol fel Ysgrifennydd Sir UCAC diwyd yn Sir Gâr, a chafodd ei hethol yn Llywydd Cenedlaethol yr Undeb yn 2003-04. Dechreuodd weithio i UCAC fel Swyddog Polisi cyntaf yr Undeb yn 2005. Fel Ysgrifennydd Cyffredinol UCAC ers 2008, mae'n gyfrifol am reoli'r Undeb o ddydd i ddydd a gosod y cyfeiriad strategol. Mae'n trafod materion addysg a chyflogaeth ar y lefelau uchaf gyda Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol a llu o gyrff eraill. Bu'n gweithio'n ddifflino i dynnu sylw'r *School Teachers' Review Body* at faterion o bwys i athrawon yng Nghymru, pan nad oedd unrhyw un arall yn gwneud. Mae lles athrawon, o ran iechyd corfforol a meddyliol, wedi bod yn agos iawn at ei chalon, ac wedi cael blaenoriaeth ganddi dros y blynyddoedd y bu'n arwain yr Undeb.

Mae hon wedi bod yn Gynhadledd lwyddiannus dros ben, er gyda thinc o dristwch, wrth i ni gofio taw hon fydd Cynhadledd olaf Elaine. “Tinc” yn unig, oherwydd mae hi'n gadael yr undeb yn gryfach nac yr oedd pan gydiodd yn y llyw, ac yn trosglwyddo'r awenau i Dilwyn Roberts-Young, olynydd haeddiannol a medrus.



Anghenion Dysgu Ychwanegol – newidiadau mawr i'r drefn

Amserlen anghenion dysgu ychwanegol (ADY)



#angheniondysguychwanegol

#ADYCymru

#DeddfADY

llyw.cymru/ADY

Daeth Charlie Thomas, Pennaeth Cangen Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) Llywodraeth Cymru atom ni brynhawn dydd Gwener y Gynhadledd, i drafod y newidiadau mawr sydd ar y ffordd i'r drefn ADY.

Mae'r 'Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg' yn gosod trefn newydd ar gyfer cefnogi plant a phobl ifanc sydd ag ADY, a hynny o'u genedigaeth hyd at 25 oed. Mi fydd yn disodli'r ddwy system gyfredol ar wahân ar gyfer y cyfnod cyn-16 ac ôl-16.

Dan y Ddeddf newydd, ni fydd y gwahaniaeth presennol rhwng **Datganiadau**, a **Gweithredu gan yr Ysgol** neu **Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy** yn bodoli mwyach. Yn lle hynny bydd gan bob dysgwr ag ADY **Gynllun Datblygu Unigol (CDU)** statudol, ni waeth beth yw eu hoedran na difrifoldeb eu hanghenion.

Disgrifiodd Charlie y symud pwyslais tuag at 'Gynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn', er mwyn sicrhau bod sylwadau, dymuniadau a theimladau plant a phobl ifanc yn chwarae rhan mor lawn â phosibl yn y penderfyniadau a wneir mewn perthynas â'u ADY a'u darpariaeth ddysgu ychwanegol.

Crybwyllodd bwysigrwydd sgiliau proffesiynol ar bob lefel, a'r hyfforddiant a ddaw yn sgil y ddeddfwriaeth newydd. Rhagwelir hyfforddiant ar 3 lefel: **Craidd** (bob aelod o'r gweithlu addysg), **Uwch** (Cydylynwyr ADY) ac **Arbenigol** (staff gwasanaethau arbenigol). Mae Cydylynwyr Trawsnewid – un ym mhob consortiwm ac un ar gyfer y sector Addysg Bellach - wedi cychwyn ar eu gwaith yn ddiweddar. Rhan o'u dyletswyddau fydd adnabod pwy sydd angen hyfforddiant, a phryd, ac i gynllunio ar gyfer hynny.

O ddiddordeb mawr i aelodau UCAC yw'r newid yn rôl y Cydylynwyr ADY (newid o SENCo i ALNCo, yn

Saesneg). Dan y drefn newydd, mi fydd y rôl yn un llawer mwy strategol, gyda chyfrifoldeb i gefnogi arweinwyr ysgol gyda phenderfyniadau, er enghraifft, ynghylch cyllidebau, adnoddau a chynllunio darpariaeth briodol. Ni fydd disgwyl iddynt gefnogi dysgwyr yn uniongyrchol - gydag athrawon dosbarth a chymorthyddion y bydd y prif gyfrifoldeb dros hynny. Bydd rhaid i'r Cydylynwyr, meddai Charlie, gael digon o amser digyswllt.

Soniodd hefyd am y dyletswyddau yn y Ddeddf newydd ynghylch y Gymraeg. Mi fydd dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i ystyried pa mor ddigonol yw'r ddarpariaeth Gymraeg maent yn ei chynnig, a maint a gallu'r gweithlu sydd ar gael, gan gymryd pob cam rhesymol i ddatrys unrhyw broblemau.

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru lunio Cod ADY newydd. Yn y Cod hwnnw y bydd y rhan fwyaf o'r manylion am y modd y caiff asesiadau a phenderfyniadau am ddarpariaeth eu gwneud. Disgwylir ymgynghoriad arno yn ystod yr hydref.

Os hoffech ragor o wybodaeth am y Ddeddf a'r newidiadau sydd ar y ffordd, mae croeso i chi gysylltu ar rebecca@ucac.cymru

Rebecca Williams, Swyddog Polisi



Charlie Thomas, Pennaeth Cangen Trawsnewid ADY Llywodraeth Cymru gydag Ysgrifennydd Cyffredinol a Llywydd Cenedlaethol UCAC

Yn cyflwyno...

Ioan Jones

Gydag ymadawiad Elaine, a Dilwyn Roberts-Young yn cymryd yr awenau fel Ysgrifennydd Cyffredinol, bu'n rhaid llenwi swydd Swyddog Maes y Gogledd i ddechrau ym mis Medi. Mae'n braf cael cyflwyno'r ymgeisydd llwyddiannus i chi fan hyn – wyneb cyfarwydd i nifer fawr ohonoch chi.

Cafodd Ioan ei fagu yn ardal Yr Wyddgrug, Sir y Fflint, a bellach wedi ail-ymgartrefu yn y dref ers dwy flynedd, ar ôl cyfnod o bymtheg mlynedd yn byw yn Wrecsam. Yn briod â Rebecca, mae ganddo ddwy ferch – Elen 14, sy'n mynychu Ysgol Maes Garmon, Yr Wyddgrug, a Mari 11, sydd ar ei thymor olaf yn Ysgol Glanrafon, Yr Wyddgrug.

Bu Ioan yn athro Hanes yn Ysgol Brynhyfryd, Rhuthun ac yn Bennaeth Hanes yn Ysgol Uwchradd Dinbych yn gynnar yn ei yrfa ac mae'n ddyledus iawn i Emrys Wynne, cyn-Ysgrifennydd Sir UCAC yn Sir Ddinbych am ei annog i ymwneud ag UCAC o'r dyddiau cynnar hynny.

Ers Pasg 2005 mae o wedi bod yn addysgu yn Ysgol Morgan Llwyd, Wrecsam lle mae'n arwain yr Adran Hanes a Gwleidyddiaeth.

Mae Ioan yn hoff iawn o deithio, darllen a mynd am dro. Yn ogystal, mae'n gefnogwr brwd o'r Scarlets, ac yn mentro i Barc Y Scarlets o dro i dro. Bydd hefyd yn mynd i wyl CPD Wrecsam – er bod sawl gêm (a thymor!) wedi mynd heibio ers



Ioan Rhys Jones, Swyddog Maes y Gogledd newydd UCAC

iddo weld y Cochion yn ennill. Mae'n Llywodraethwr yn Ysgol Bodhyfryd, Wrecsam ac yn weithgar â'r Urdd yn rhanbarth Fflint Wrecsam.

Bu Ioan yn Llywydd Cenedlaethol UCAC yn 2014 -2015 ac mae'n aelod o'r Cyngor Cenedlaethol. Mae wedi bod yn aelod o'r Adran Addysg, Cwricwlwm ac Asesu ers sawl blwyddyn, a bellach yn gadeirydd arni. Mae ganddo'r profiad o fod yn Ysgrifennydd Sir Wrecsam ers 2006 ac mae'n frwdfrydig iawn dros waith yr Undeb ac yn edrych ymlaen yn fawr i weld datganoli tâl ac amodau gwaith wedi hir aros.

Argyfwng ariannu


Mae prinder cyllid a'i holl sgil-ffeithiau yn fater sy'n codi'n ddyddiol, mewn un ffordd neu'r llall, gan aelodau UCAC ar hyn o bryd.

Boed yn fater o ddiswyddo, ail-strwythuro, cyfyngu ar weithgareddau anstatudol, dibyniaeth gynyddol ar staff cynorthwyol neu ohirio gwaith cynnal a chadw – mae'r rhain oll yn arwyddion bod y system yn gwegian.

Codwyd y mater mewn nifer fawr o gynigion yn y Gynhadledd Flynyddol eleni, a daeth UCAC â chynnig ar y mater i gynhadledd y TUC ddiwedd mis Mai.

Mae UCAC wedi gohebu â phob Awdurdod Lleol i fynegi pryderon (gan gopïo'r llythyr i Aelodau Cynulliad perthnasol) – ac wedi annog aelodau unigol i wneud yn ogystal. Ar sail y llythyr, rydym wedi cael cyfarfodydd â sawl un ohonynt i gael gwell dealltwriaeth o bersbectif yr Awdurdod Lleol ac i geisio adnabod cyfleoedd am gydweithio i wella'r sefyllfa at y dyfodol.

Bydd ariannu'r system addysg yn parhau yn flaenoriaeth i UCAC dros y misoedd – ac yn ddi-os, y blynyddoedd – i ddod. Dyma'n panel newydd ar gyfer ein stondin yn yr Eisteddfodau eleni.



Adnoddau • Adnoddau • Adnoddau

Ydych chi'n chwilio am adnoddau, gweithgareddau a syniadau?

Mae gwefan Adnoddau Addysgol CBAC yn cynnwys amrywiaeth eang o adnoddau i gefnogi'n cymwysterau newydd.

Ewch at <http://adnoddau.cbac.co.uk> i gael mynediad rhad ac am ddim at yr adnoddau sydd yno ar eich cyfer.

Dyma rai enghreifftiau o'r lluo o adnoddau newydd sydd ar y wefan:



CA4: Bwyd a Maeth: Rhoi Egwyddorion Maetheg ar Waith

Dyma becyn rhyngweithiol sy'n seiliedig ar y poster Rhoi Egwyddorion Maetheg Ar Waith gan Hybu Cig Cymru. Mae'r gwaith yn cynnwys gwybodaeth ar gyfer pob rhan o'r poster ynghyd ag ymarferion a gweithgareddau rhyngweithiol. Diolch i Hybu Cig Cymru am eu cydweithrediad wrth baratoi'r adnodd yma. Ariennir gan Lywodraeth Cymru.




CA4: Hanes: Newidiadau yn Ne Affrica, 1948 - 1994

Adnodd i gefnogi Newidiadau yn Ne Affrica, 1948-1994 sef un o'r Astudiaethau Manwl (Uned 2) sy'n rhoi ystyriaeth i hanes yng nghyd-destun Ewrop neu'r byd ehangach. Mae'r adnodd ar gyfer athrawon ac yn cynnig ymdriniaeth fanwl o'r cyfnod.



CA5: Gwyddoniaeth: Canllawiau adolygu TAG Safon Uwch, Uned 3 a 4

Llyfrynau adolygu a baratowyd gan athrawon Gwyddoniaeth profiadol ar gyfer y manylebau newydd (addysgu o 2015 ac i'w ddyfarnu o 2016). Lluniwyd y llyfrynau gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru.



CA5: Seicoleg: Meithrin y genhedlaeth nesaf

Mae'r adnodd hwn yn arbennig o ddefnyddiol ar gyfer y canolfannau hynny sy'n cynnig Seicoleg Safon Uwch i'w myfyrwyr am y tro cyntaf.



CA5: Addysg Grefyddol: Uned 3 Hindŵaeth - adnoddau AA2 cefnogol

Adnoddau AA2 ar gyfer Addysg Grefyddol Safon Uwch, Uned 3, Opsiwn E: Hindŵaeth. Mae'r ddogfen hon yn awgrymu enghreifftiau o linellau rhesymu/casgliadau ynglŷn â'r materion a nodir yn y fanyleb.



Dyma rai o'r adnoddau sydd ar y gweill ar hyn o bryd:

- Astudiaeth Ffilm _
- Addysg Grefyddol: Moeseg _
- TGAU Daearyddiaeth _
- Llywodraeth a Gwleidyddiaeth _

Digwyddiadau

Eleni, cynhelir cynadleddau ar gyfer Ymarferwyr Cynradd Cymraeg Iaith Gyntaf ar 22 Mehefin, 2018.

I drefnu lle, cofrestrwch yma <https://bit.ly/1kac27w>

Dilynwch adnoddau addysgol CBAC ar [@adnoddau_cbac](https://twitter.com/adnoddau_cbac)

Fy ardal
Gwybodaeth am weithgareddau eich ardal chi

Chwaraeon
Clybiau, cystadlaethau a hyfforddiant

Ein Gwersylloedd
Dewch i aros

Eisteddfod yr Urdd
Gŵyl ieuenctid fwyaf Cymru

Ymunwch
Ymaelodwch â'r Urdd

Siop
Nwyddau a Chylchgronau

Eisteddfod yr UrddCystadiuEisteddfod 2018Newyddion DiweddarafCysylltu/Gwirfoddoli/SwyddiGwybodaeth i Gwmnïau20192020

Eisteddfod yr Urdd 2018

Cynhelir Eisteddfod yr Urdd Brycheiniog a Maesyfed ar faes y Sioe, Llanelwedd rhwng 28 Mai - 2 Mehefin 2018.

MWY O WYBODAETH

Eisteddfod yr Urdd

Yn ôl yr arfer, bydd stondin gan UCAC yn Eisteddfod yr Urdd eleni, ar faes y Sioe yn Llanelwedd.

Os gewch chi eillad i'w sbario rhwng rhagbroffion, perfformiadau, a hebrwng plant o un man i'r llall - dewch draw i'r stondin am baned a sgwrs. Bydd croeso cynnes i chi yno.